Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



# Prif Swyddog Gweithredol

## Pecyn recriwtio

Medi 2025

# Cynnwys


3 Croeso gan y Cadeirydd

4-5 Yr ymgeisydd delfrydol

6 Gwahoddiad i arwain gyda phwrpas

7 Ein sefydliad ni a'r rôl

8 Beth rydym yn chwilio amdano

9 Pam Gogledd Cymru?

10-12 Disgrifiad swydd

13-15 Manyleb y Person

16 Pecyn Prif Swyddog Gweithredol

17 Camau nesaf




# Croeso gan y Cadeirydd

**Diolch i chi am eich diddordeb yn rôl y Prif Swyddog Gweithredol yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.**

Mae hon yn foment arwyddocaol i'n sefydliad ni - un o barhad ac o adnewyddu. Fel Cadeirydd, rydw i'n ffodus o gael gweithio gyda thîm eithriadol o staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, aelodau a phartneriaid sy'n unedig oherwydd ymrwymiad a rennir i ddyfodol byd natur a llefydd yng Ngogledd Cymru. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n falch o'r cynnydd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf - cynnydd a wnaed yn bosibl diolch i arweinyddiaeth ragorol ein Prif Swyddog Gweithredol sy'n gadael, Frances Cattanach.

Mae Frances wedi arwain yr Ymddiriedolaeth gyda doethineb, eglurder a didwylledd craff. Yn ystod ei chyfnod yn arwain, rydyn ni wedi cryfhau ein cyllid, wedi dyfnhau ein perthnasoedd cymunedol, wedi ehangu ein heffaith ar gadwraeth ac wedi egluro ein pwrpas sefydliadol. Mae hi'n gadael yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa gref a chadarnhaol - yn cael ei pharchu yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn barod i gymryd camau meddylgar ac uchelgeisiol i'w phennod nesaf.

Rydyn ni nawr yn chwilio am arweinydd fedr adeiladu ar y sylfaen honno gyda hyder a gofal. Rhywun sy'n cyfrannu trylwyredd strategol a dyfnder perthynol – unigolyn sy'n gallu arwain sefydliad cymhleth drwy newid, gan aros yn driw i werthoedd cydweithredu, integriti a stiwardiaeth hirdymor.

Mae'r rôl hon hefyd yn rhan o fudiad ehangach. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gweithio'n agos gyda'r pedair Ymddiriedolaeth Natur arall yng Nghymru, yn ogystal â Chymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT), fel rhan o ymrwymiad cynyddol ledled y DU i adfer byd natur. Bydd partneriaethau cadarn, dysgu ar y cyd ac arweinyddiaeth gydlynol ar draws y mudiad yn hanfodol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Gobeithio y bydd y pecyn hwn yn rhoi ymdeimlad cryf i chi o bwy ydym ni a beth sy'n bwysig i ni. Os ydych chi'n gallu uniaethu â hynny, rydyn ni'n eich annog yn gynnes i edrych ar y rôl ymhellach ac ystyried gwneud cais.

Gyda dymuniadau gorau,
**Howard Davies**, *Cadeirydd*,
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru









# Yr ymgeisydd delfrydol

**Rydyn ni'n chwilio am rywun sy'n gallu cynnig gweledigaeth a disgyblaeth ar gyfer y rôl. Bydd y person priodol yn ymwybodol o'r darlun mawr ar gyfer yr Ymddiriedolaeth ond yn cadw'n driw i realiti ymarferol cyflawni. Bydd yn arweinydd sy'n gallu pennu cyfeiriad gyda hyder, ond hefyd yn un sy'n gwrando, yn cysylltu ac yn meithrin ymddiriedaeth ar draws llawer o gymunedau a phartneriaid.**

Bydd yn deall yr angen am ddeallusrwydd ariannol a masnachol cadarn a bydd yn hyderus wrth oruchwylio cyllidebau, creu ffrydiau incwm a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer twf. Yr un mor bwysig fydd ymrwymiad cadarn i'r amgylchedd ac empathi tuag at ddiwylliant a chymunedau nodedig Gogledd Cymru, gan gynnwys y cyd-destun dwyieithog rydyn ni'n gweithio yddo.

Bydd yr unigolyn yn wydn ac yn hyblyg, yn gallu herio ansicrwydd a manteisio ar gyfleoedd, gan gynnal ffocws cadarn ar effaith hirdymor. Bydd gan yr unigolyn hygrededd ym maes ecoleg, cadwraeth neu faes arall â chysylltiad agos, a bydd yn gyfforddus yn cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau uchaf mewn meysydd cyhoeddus, polisi a phartneriaeth.

Bydd yn berthynol o ran dull gweithredu, gan gyfrannu gofal, gwyleidd-dra ac empathi at ei arweinyddiaeth, ond bydd hefyd yn barod i herio rhagdybiaethau, sbarduno arloesedd ac ysbrydoli newid. Bydd yn gynhwysol ac yn gydweithredol, gan annog arweinyddiaeth ar bob lefel a meithrin diwylliant sefydliadol cadarnhaol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd.

O ran rhinweddau personol, byddem yn disgwyl unigolyn fedr gyfuno gweledigaeth gyda phragmatiaeth, fedr gydbwyso ysbrydoliaeth â disgyblaeth, a fedr weld y manylion yn ogystal â darlun ehangach y system. Bydd gan yr unigolyn ddeallusrwydd emosiynol, sgiliau cyfathrebu cadarn a'r gallu i sicrhau bod pobl yn gefnogol.

Byddai'r ymgeisydd delfrydol yn gallu gweithredu ar ben gweledigaethol ac ymarferol y sbectrwm. Byddai'n cael ei fywiogi gan bobl a phartneriaethau ond hefyd yn gallu gweithio gyda ffocws a disgyblaeth. Byddai'n hyderus wrth arwain yn allanol ac ysbrydoli eraill, a hefyd yn adlewyrchol, yn feddylgar ac yn gadarn. Yn fwy na dim, byddai'n ymddangos fel unigolyn didwyll, sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac yn gallu addasu i wahanol ofynion y rôl.


Gwarchodfa Natur Rhiwledyn, Conwy

© Lin Cummins

# Prif Swyddog Gweithredol: **Gwahoddiad i arwain gyda phwrpas**

**Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn chwilio am arweinydd eithriadol i ymgymryd â rôl Prif Swyddog Gweithredol (PSG) - rôl sy'n cyfuno craffter busnes strategol gydag ymrwymiad dwfn i integriti ecolegol, ymgysylltu cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor.**

Mae hon yn foment hollbwysig i'r Ymddiriedolaeth a'r rhanbarth. Wrth i systemau amgylcheddol a chymdeithasol newid, mae mwy o alw nag erioed am arweinyddiaeth gadarn ac ymatebol. Rydyn ni'n chwilio am PSG fedr gyfrannu eglurder ariannol a gweithredol a hefyd meithrin y perthnasoedd, y partneriaethau a'r diwylliant sy'n sail i effaith barhaol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arweinydd sefydliadol hyderus a phrofiadol sy'n gallu rheoli cymhlethdod, goruchwylio rhaglenni aml-elfen, a sicrhau llywodraethu, cydymffurfiaeth a pherfformiad cadarn. Ond dydyn ni ddim yn chwilio am reolwr confensiynol. Mae'r rôl hon yn gofyn am rywun sy'n deall bod arweinyddiaeth effeithiol yn berthynol: wedi'i hadeiladu ar ymddiriedaeth, chwilfrydedd, gwyleidd-dra a'r gallu i wrando - ar bobl ac ar lefydd.



© Howard Davies

# Ein sefydliad ni a'r rôl

**Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn elusen sydd wedi'i sefydlu'n dda gydag enw da. Mae'n rheoli mwy na 30 o warchodfeydd natur ac yn cyflwyno rhaglenni effaith uchel ym maes cadwraeth, addysg, gwyddoniaeth y dinesydd a gwydnwch hinsawdd.**

Rydyn ni wedi ein gwreiddio'n ddwfn yng nghymunedau a thirweddau Gogledd Cymru. Rydyn ni'n gweithio'n ddwyieithog (yn y Gymraeg a'r Saesneg), ac rydyn ni'n ymgysylltu'n agos gydag ysgolion, awdurdodau lleol, ffermwyr, parciau cenedlaethol, prifysgolion, cyllidwyr a gwirfoddolwyr. Rydyn ni'n bartner dibynadwy mewn deialogau polisi cenedlaethol a rhanbarthol, ac rydyn ni'n cyfrannu fwyfwy at fodelau sy'n dod i'r amlwg o lywodraethu adfywiol, cyllid natur a chynllunio sy'n seiliedig ar le.



Fel PSG, byddwch yn darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth weithredol ar draws pob maes yng ngwaith yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y canlynol:

- Siapio a chyflwyno ein strategaeth sefydliadol hirdymor yn unol â'n cenhadaeth a'n gwerthoedd.
- Arwain uwch dîm talentog a chefnogi grŵp ymroddedig a medrus o staff.
- Sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth ariannol gadarn, gyda golwg glir ar risg, cyfle a chynaliadwyedd.
- Creu a chynnal perthnasoedd ymddiriedaeth uchel ar draws partneriaid, cyllidwyr, rheoleiddwyr a chymunedau.
- Cefnogi diwylliant sefydliadol cadarn ac iach, sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd gofal, cynhwysiant a chydweithredu.
- Cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, gydag eglurder a hygrededd.



# Beth rydym yn chwilio amdano

**Rydyn ni'n chwilio am PSG sy'n gallu gwneud y canlynol:**

- Gweithredu'n hyderus ar lefel uwch, gydag enw da ym maes arweinyddiaeth sefydliadol, stiwardiaeth ariannol a goruchwylio perfformiad.
- Cyfrannu meddylfryd strategol a safbwynt lefel systemau, gan gydbwyso cyflawni o ddydd i ddydd gyda meddwl yn yr hirdymor.
- Adeiladu pontydd ar draws sectorau a safbwyntiau, gan gynnal lle i gymhlethdod heb ildio i reolaeth.
- Cyfathrebu gydag eglurder ac empathi - yn fewnol ac yn allanol, yn y Gymraeg a / neu'r Saesneg.
- Deall a gwerthfawrogi profiadau byw cymunedau, diwylliannau a thirweddau yng Ngogledd Cymru.

**Yn fwy na dim, rydyn ni'n chwilio am unigolyn fedr arwain gydag integriti a dychymyg - gan gefnogi'r Ymddiriedolaeth i esblygu mewn ymateb i heriau amgylcheddol brys a pharhau i fod wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn lle, pobl a phwrpas.**






Tirwedd Fyw Alun a Chwiler

© Jonathan Hulson










# Pam Gogledd Cymru?

Mae Gogledd Cymru yn cynnig ansawdd bywyd eithriadol. O fynyddoedd Eryri i arfordiroedd Ynys Môn a bryniau Dyffryn Clwyd a Dyffryn Afon Dyfrdwy, mae hwn yn llecyn o harddwch naturiol, cyfoeth diwylliannol a chryfder cymunedol.

Mae hefyd yn lle o bwys strategol - cartref i gynefinoedd dynodedig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, cymuned gynyddol o arloeswyr amgylcheddol, a chyd-destun polisi deinamig wedi'i siapio gan ddatganoli, targedau bioamrywiaeth a democratiaeth leol.

Gyda chost byw is, ysgolion dwyieithog rhagorol a chysylltiadau trafnidiaeth arbennig, mae hwn yn lleoliad delfrydol i fwrw gwreiddiau ac arwain gwaith ystyrlon mewn rhanbarth sydd â pherthnasedd byd-eang.

# Prif Swyddog Gweithredol **Disgrifiad swydd**

**Lleoliad:** Hybrid: gweithio o gartref (ar ôl y cyfnod setlo) yng Ngogledd Cymru ar y cyd â chyfleusterau swyddfa sydd ar gael ym Mangor neu Aberduna a bydd angen teithio'n rheolaidd i gyfarfodydd oddi ar y safle.

**Yn atebol i:** Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth

## PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol sy'n sicrhau bod Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cyflawni ei hamcanion elusennol ac yn cyflawni ei chenhadaeth yn effeithiol ac yn gynaliadwy wrth barhau i dyfu. Mae hyn yn cynnwys siapio a gweithredu'r cynllun strategol, rheoli pobl ac adnoddau, cynnal iechyd ariannol, a meithrin perthnasoedd cadarn gyda'i haelodaeth, rhanddeiliaid eraill, cyllidwyr a'r gymuned ehangach.

Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n gyfrifol yn y pen draw am lywodraethu, codi arian, ymddiriedaeth y cyhoedd ac effaith gymdeithasol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Un elfen bwysig o'r rôl hon yw sicrhau bod Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn chwarae ei rhan fel aelod gweithredol o ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur i helpu i sicrhau buddugoliaethau i fywyd gwyllt y tu hwnt i'n ffin.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

### A Arweinyddiaeth Strategol

- Datblygu a gweithredu gweledigaeth hirdymor a chynllun strategol yr elusen, gan sicrhau bod gweithgareddau'r elusen yn cyd-fynd â'i chenhadaeth a'i gwerthoedd.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer twf, partneriaethau ac arloesedd.
- Bod yn wyneb allanol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Tyfu'r elusen, gan gynnwys is-gwmnïau, i gefnogi cyflawni nodau strategol yn y dyfodol (gan gynnwys adolygiad posibl o'r strwythur presennol i gyflawni twf ac i gyrraedd targedau strategol).
- Datblygu naratif arweinyddiaeth ysbrydoledig sy'n mynegi gweledigaeth a gwerthoedd y bwrdd yn ymarferol ac yn siapio datblygiad parhaus yr Ymddiriedolaeth.
- Meithrin perthynas agored, dryloyw ac effeithiol gyda'r bwrdd llywodraethu a'i bwyllgorau.
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gweld fel cyflogwr da y byddai pobl yn hoffi gweithio iddo a'i bod wedi'i staffio gan unigolion talentog a medrus ar bob lefel.
- Galluogi gwelliant ac arloesedd disgybledig fel arfer sefydliadol drwy adborth a diwylliant gwrando cadarnhaol.
- Sicrhau cynaliadwyedd a chydymffurfiaeth sefydliadol.
- Sefydlu perthnasoedd allanol: meithrin cyfalaf cymdeithasol a phroffesiynol.

- Arwain a bod yn fodel rôl o ran y diwylliant sefydliadol a ddymunir drwy sicrhau arfer da, croesawu newid a meithrin amgylchedd gwaith hapus.
- Bod yn ddylanwad cryf a chadarnhaol ar arweinyddiaeth Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r RSWT.

## B Gweithrediadau

- Arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu cynllun strategol y sefydliad yn rheolaidd, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i genhadaeth, ei weledigaeth a'i amcanion hirdymor.
- Goruchwylio gweithrediadau o ddydd i ddydd a chyflawni rhaglenni y cytunwyd arnynt.
- Adolygu cynnydd ar y Cynllun Strategol y cytunwyd arno, a'i ddiweddaru'n rheolaidd.
- Goruchwylio'r gwaith o baratoi cyllideb flynyddol i'w chymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a gweithredu o fewn iddi.
- Monitro ac adrodd ar ddangosyddion allweddol effaith ac iechyd ariannol yr Ymddiriedolaeth.
- Nodi a chynnal ymwybyddiaeth o risgiau a newidiadau yn yr amgylchedd allanol sy'n effeithio ar y sefydliad (Iechyd a Diogelwch, Cydymffurfiaeth Ariannol, Cyfraith Cyflogaeth, ac ati) a datblygu strategaethau i gydymffurfio a lliniaru yn eu herbyn.
- Recriwtio / Rheoli Llinell / Datblygu'r Tîm Rheoli.
- Sicrhau bod cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth a gwydnwch yn cael eu hymgorffori ar draws y strwythur rheoli.
- Arwain, cefnogi a datblygu staff a gwirfoddolwyr.
- Hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob maes o waith yr Ymddiriedolaeth.
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol.
- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar gyflawni ei chenhadaeth a'i nodau
- Bod yn arweinydd i aelodau'r Ymddiriedolaeth, gan sicrhau eu bod yn cael gwybod yn llawn am weithgareddau'r Ymddiriedolaeth a hwyluso twf parhaus yn nifer yr aelodau.
- Sicrhau mecanweithiau ar gyfer gwrando ar farn buddiolwyr ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth.
- Sbarduno datblygiad busnes yr Ymddiriedolaeth a sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn ennill contractau perthnasol.
- Datblygu a rheoli unrhyw is-gwmnïau.
- Codi arian: cefnogi ymdrechion codi arian mawr (grantiau, rhoddwyr, digwyddiadau, cymynroddion, partneriaid corfforaethol) i helpu i sicrhau incwm cynaliadwy ac amrywiol. Meithrin a chynnal perthnasoedd gyda chyllidwyr a rhanddeiliaid.

## C Llywodraethu

- Gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau llywodraethu da.
- Cefnogi'r Cadeirydd i gynnal Bwrdd sy'n perfformio'n dda drwy gyfrannu at recriwtio, sefydlu a datblygu ymddiriedolwyr.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol, fanwl gywir a pherthnasol i gefnogi llywodraethu effeithiol, gwneud penderfyniadau strategol a goruchwylio.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ymddiriedolwyr ac is-bwyllgorau.
- Ymgysylltu fel aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r bwrdd ar berfformiad, risgiau a phenderfyniadau allweddol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau elusennau, gan gynnwys gwarchod data a diogelu.

## D Allanol


- Bod yn wyneb yr Ymddiriedolaeth i'r Aelodau, gan gyfrannu'n rheolaidd at gyfathrebu a digwyddiadau aelodau.
- Meithrin perthnasoedd gyda gwleidyddion, partneriaid, y cyfryngau a swyddogion y llywodraeth er mwyn hyrwyddo amcanion yr Ymddiriedolaeth.
- Cyfrannu'n weithredol at fentrau ledled y sector ac arweinyddiaeth feddwl sy'n hyrwyddo polisi ac arfer cadwraeth.
- Cynrychioli'r Ymddiriedolaeth mewn digwyddiadau allanol a chyfleoedd cyhoeddusrwydd. Cynrychioli'r Ymddiriedolaeth gyda chynulleidfaoedd allanol: y cyfryngau, rhoddwyr a buddiolwyr a rhoi cyfweliadau.
- Eiriol dros achos yr Ymddiriedolaeth a meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltiad rhanddeiliaid.

Er mwyn i'r Ymddiriedolaeth weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac felly, dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r Ymddiriedolaeth yn fewnol ac yn allanol ac mae disgwyl iddynt weithredu'n broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y'u nodir yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, pennu a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid, a meithrin diwylliant o 'fedru gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.

## CYMWYSTERAU

Mae disgwyl gradd israddedig (neu gymhwyster sy'n cyfateb i radd).





Gwarchodfa Natur Chwarel
Mwynglawdd, Wrecsam






# Prif Swyddog Gweithredol
# **Manyleb y Person**

| | Hanfodol | Dymuno |
|---|---|---|
| **Rhinweddau personol** | | |
| Arweinyddiaeth llawn gweledigaeth - yn gallu mynegi dyfodol cadarn i'r Ymddiriedolaeth | ✓ | |
| Deallusrwydd emosiynol - Hunanymwybyddiaeth, empathi a'r gallu i reoli deinameg rhyngbersonol yn effeithiol | ✓ | |
| Eglurder, y gallu i fod yn agored a'r gallu i ymgysylltu ag eraill ar bob lefel | ✓ | |
| Gwydnwch - Y gallu i gynnal ffocws ac yn hyblyg o dan bwysau neu yn ystod cyfnod o ansicrwydd | ✓ | |
| Dymunol a chyfathrebwr da | ✓ | |
| Aelod da o dîm | ✓ | |
| Yn herio'r status quo yn weithredol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau, gan chwilio am arfer da | ✓ | |
| Dylanwadwr | ✓ | |
| Datryswr problemau | ✓ | |
| Dysgwr cyflym | ✓ | |
| **Rhinweddau personol** | | |
| Dealltwriaeth gref o faterion amgylcheddol | ✓ | |

| | Hanfodol | Dymuno |
|---|---|---|
| Sgiliau strategaeth fasnachol a busnes sy'n briodol i elusen sy'n gweithredu mewn tirlun cyllido cymhleth | ✓ | |
| Arloeswr | | ✓ |
| Sbarduno newid | ✓ | |
| Meddwl strategol - Medrus wrth ddadansoddi sefyllfaoedd cymhleth a gwneud penderfyniadau ar lefel uchel sy'n cyd-fynd â nodau hirdymor | ✓ | |
| Profiad cadarn o reoli ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys datrys materion cymhleth yn effeithiol ac yn effeithlon | ✓ | |
| Rheoli prosiectau | ✓ | |
| Y gallu i amsugno gwybodaeth gymhleth yn gyflym, a'i chyfathrebu i gynulleidfa heb fod yn arbenigwyr mewn ffordd gryno a diddorol | ✓ | |
| Grymuso - Annog arweinyddiaeth ar bob lefel a meithrin diwylliant o ymddiriedaeth a pherfformiad | ✓ | |
| **Profiad** | | |
| Uwch reolwyr neu arweinyddiaeth sefydliadol | ✓ | |
| Gallu clir i gynhyrchu a rheoli ffrydiau incwm amrywiol, gan gynnwys drwy bartneriaethau, grantiau, masnachu, neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â busnes. Profiad o arwain neu reoli mewn sefydliad sy'n atebol yn ariannol, boed yn y sector elusennol, cyhoeddus neu breifat. | ✓ | |

| | Hanfodol | Dymuno |
|---|---|---|
| Dealltwriaeth o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant ac o ddiwylliant ac iaith Cymru | | ✓ |
| Gweithio gyda phwyllgorau neu fyrddau | | ✓ |
| Profiad o reoli busnes neu fenter (gan gynnwys o fewn y trydydd sector) | | ✓ |
| Profiad o godi arian a marchnadoedd cyllid gwyrdd neu wybodaeth amdanynt | | ✓ |
| Profiad o gynllunio a rheoli ymgyrchoedd | | ✓ |
| Profiad o strategaeth fasnachol / busnes | ✓ | |
| Gweithio mewn ffederasiwn, sefydliad matrics cymhleth | | ✓ |
| Cynnull ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid i gyflawni amcanion y rhaglen | ✓ | |
| Meithrin a rheoli perthnasoedd | ✓ | |
| **Gwybodaeth a sgiliau** | | |
| Dangos empathi gyda'r Iaith a'r Diwylliant Cymraeg | ✓ | |
| Agenda polisi a deddfwriaeth yng Nghymru / y DU / Ewrop / yn Rhyngwladol | ✓ | |
| Eiriolaeth – i helpu i hyrwyddo amcanion yr Ymddiriedolaeth | ✓ | |
| Sgiliau rhyngbersonol, gan gynnwys trafod | ✓ | |

| | Hanfodol | Dymuno |
|---|---|---|
| Craffter ariannol | ✓ | |
| Trosolwg eang o agweddau allweddol ar ecoleg, cadwraeth, amaethyddiaeth, pysgota, newid hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill | ✓ | |
| Adfer cynefinoedd gyda manteision amlswyddogaethol; cysylltedd a gwydnwch ecolegol | | ✓ |
| Rheoli stadau ac entrepreneuriaeth | | ✓ |
| Profiad a sgiliau cyfreithiol / contract | | ✓ |
| Gwybodaeth ymarferol am Iechyd a Diogelwch a'u defnydd yn y rôl hon | | ✓ |
| Sgiliau TG cadarn, sgiliau digidol a data cadarn | ✓ | |
| Dealltwriaeth dda o Ddiogelu yng nghyd-destun gwaith | | ✓ |
| Gwybodaeth gadarn am reoliadau EDI ac arfer da mewn perthynas â hwy | | ✓ |
| Gallu i ymchwilio | | ✓ |
| Sgiliau siaradwr cyhoeddus / cyflwyno da | ✓ | |
| Paratoi, cymdeithasu a datblygu Achosion Busnes | | ✓ |
| Siaradwr Cymraeg rhugl | | ✓ |

# Pecyn Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

## GORFFENNAF 2025

Cyflog: £70-75K

Pecyn adleoli dewisol hyd at £10k o ad-daliad yn erbyn derbynebau am dreuliau symud.

Cynllun bonws dewisol o hyd at 10% o gyflog y flwyddyn, yn seiliedig ar gyflawni targedau perfformiad hirdymor y cytunwyd arnynt:

1. Optimeiddio ein cyfraniad at 30x30.

2. Cynyddu Incwm Digyfyngiad

3. Ehangu'r Sylfaen o Gefnogwyr ac Aelodau

4. Datblygu Ffrydiau Incwm Newydd

32 diwrnod o wyliau y flwyddyn, gan gynnwys Gwyliau Banc statudol, sy'n cynyddu un diwrnod am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblheir yn llawn hyd at uchafswm o 38 diwrnod.

Cyfraniad cynllun pensiwn cyflogwr o 6%, yn amodol ar gyfraniad o 6% gan y cyflogai.

Cynllun yswiriant bywyd o ddwywaith y cyflog.






# Y camau nesaf

Rydyn ni'n annog ymgeiswyr o amrywiaeth o gefndiroedd i ystyried y rôl hon. Yr hyn sydd bwysicaf yw nid yn unig eich cymwysterau, ond sut rydych chi'n cydymffurfio â'n cenhadaeth, eich parodrwydd i arwain yn berthynol, a'ch gallu i gyfuno disgyblaeth strategol gydag arweinyddiaeth hyblyg, sy'n cael ei llywio gan werthoedd.

## Y broses ddewis

- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 30ain Medi 2025.
- Cynhelir Dyddiau Recriwtio ar 5ed a 7fed Tachwedd 2025 yn ein swyddfa ni y Mangor.
- Dim ond i ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y cam cyfweliad fydd adborth ar gael.

## Cwestiynau

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses recriwtio neu i drefnu sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Susanne Devine (Rheolwr AD) ar 07956 860 922 neu e-bostiwch Susanne.Devine@northwaleswildlifetrust.org.uk





Gwarchodfa Natur Coed Crafnant, Gwynedd

©Ben Porter

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

northwaleswildlifetrust.org.uk
01248 351 541 Rhif elusen / Charity number: 230772